OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1355 (Cy.103)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Landlord a Thenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*17 Mai 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 166 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Landlord a Thenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran anheddau(**2**) yng Nghymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2002" ("the 2002 Act") yw Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

Cynnwys ychwanegol a ffurf hysbysiad o rent sy'n ddyledus

3.—(1) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1) o adran 166 o Ddeddf 2002 (Gofyniad i hysbysu deiliaid lesoedd hir bod rhent yn ddyledus) gynnwys (yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir yn unol â pharagraffau (a) a (b) o is-adran (2) o'r adran honno ac, os yw'n gymwys, paragraff (c) o'r is-adran honno) —

(a) enw'r lesddeiliad y mae'r hysbysiad yn cael ei roi iddo;

(b) y cyfnod y mae'r rhent sy'n cael ei hawlio i'w briodoli iddo;

(c) enw'r person y mae taliad i'w wneud iddo, a'r cyfeiriad ar gyfer talu;

(ch) enw'r landlord y mae'r hysbysiad yn cael ei roi ganddo ac, os nad yw wedi'i nodi yn unol ag is-baragraff (c) uchod, ei gyfeiriad; a

(**1**) 2002 p.15. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 166(9) o Ddeddf 2002. Yn rhinwedd adran 179(1) o'r Ddeddf honno, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r "appropriate national authority" o ran Cymru.

(**2**) *Gweler* adran 166(9) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, y diffiniad o "the 1985 Act" yn adran 179(2) o'r Ddeddf honno, ac adran 2 o Ddeddf Landlord a Thenant 1985.

(d) yr wybodaeth a ddarperir yn y nodiadau i'r ffurflen a welir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1) o adran 166 o Ddeddf 2002 fod ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
17 Mai 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Rheoliad 3

FFURF AR HYSBYSIAD SY'N GALW AM DALU RHENT
DEDDF CYFUNDDALIAD A DIWYGIO CYFRAITH LESDDALIAD 2002, ADRAN 166HYSBYSIAD I DDEILIAID LESOEDD HIR O RENT SY'N DDYLEDUS

At: To:

(*rhowch enw'r lesddeiliaf(iad)*) (**nodyn 1**) (*insert name(s) of leaseholder(s)*) (**note 1**)

Rhoddir yr hysbysiad hwn ynglyn â: This notice is given in respect of :

(*rhowch gyfeiriad y fangre, gan gynnwys y cod post, y mae'r les hir yn ymwneud â hi*) (*insert address of premises, including the postcode, to which the long lease relates*)

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i chi dalu rhent o: It requires you to pay rent of :

£

(*rhowch y swm*) ar: (*insert the sum*) on:

/ /

(*rhowch y dyddiad - rhaid rhoi pob dyddiad ar ffurf rhifau yn hytrach na geiriau - e.e. 26/12/2005 fyddai 26 Rhagfyr 2005*) (**Nodyn 2**) (*insert date - all dates must be completed using numbers not words - e.g. 26 December 2005 would be 26/12/2005*) (**Note 2**)

Mae'r rhent yn daladwy am y cyfnod canlynol: The rent is payable in respect of the following period:

fesul wythnos	☐	per week
fesul mis calendr	☐	per calander month
fesul chwarter	☐	per quarter
fesul unrhyw gyfnod arall	☐	any other period

(TICIWCH y blwch priodol) (TICK the appropriate box)